Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cytundeb Caerdydd
# The Cardiff Agreement

14 Medi 2026

OGL

© Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru
WG55273 Argraffu ISBN 978-1-80853-335-8 Digidol 978-1-80853-336-5

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair





Am y tro cyntaf ers dechrau datganoli, mae Cymru a'r Alban yn cael eu harwain gan lywodraethau sy'n credu yn y potensial sydd gennym i ffynnu fel gwledydd annibynnol.

Er bod y daith gyfansoddiadol y mae Cymru a'r Alban arni yn wahanol i'w gilydd, rydym yn cael ein rhwymo gan yr ymddiriedaeth sydd gennym yng ngallu ein pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu dyfodol nhw eu hunain.

Yn yr ysbryd hwnnw, mae'r fframwaith newydd hwn yn nodi meysydd o ddiddordeb cyffredin y byddwn ni fel Prif Weinidogion a'n priod lywodraethau yn cydweithio arnynt yn y blynyddoedd sydd i ddod, i gryfhau democratiaeth a gwella canlyniadau i'r rhai yr ydym yn eu cynrychioli.

Mae'r ymdrechion cyffredin hyn wedi eu gwreiddio yn y gred y dylai'r berthynas rhwng holl lywodraethau'r Deyrnas Unedig fod yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a chyd-barch.

Mae'r Deyrnas Unedig ar ei ffurf bresennol yn anghyfiawn ac yn anghynaliadwy. Byddwn yn defnyddio pob cyfle sydd ar gael inni i ddadlau'r achos dros fwy o degwch i Gymru a'r Alban mewn meysydd fel gweithrediad trefniadau ariannu y DU a phwerau dros ein dyfodol cyfansoddiadol.

Byddwn yn parhau i weithio tuag at ein nod cyffredin o fynd i'r afael â thlodi plant a chefnogi aelwydydd gyda chostau byw. Rydym eisoes yn rhannu arferion gorau. Mae Cymru yn efelychu Taliad Plant yr Alban, sy'n gynllun trawsnewidiol, gyda'i chynllun peilot ei hun – Cynnal – i gefnogi plant mewn aelwydydd incwm isel.

Bydd ein hymrwymiad ar y cyd i greu swyddi sgiliau uchel, sy'n talu cyflogau da drwy ddenu buddsoddiad hirdymor yn cynnwys hyrwyddo Cymru a'r Alban ar y llwyfan fyd-eang, ymchwilio i gyfleoedd economaidd a meithrin cysylltiadau agosach â'r Undeb Ewropeaidd a phartneriaid rhyngwladol.

Fel llywodraethau, rydym yn cydnabod ein dyletswydd i chwarae ein rhan i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'r cytundeb hwn yn nodi cynaliadwyedd ac ynni adnewyddadwy fel meysydd ag iddynt botensial inni ddysgu ar y cyd amdanynt a chydweithio arnynt. O ganlyniad, byddwn yn gallu defnyddio'r cyfoeth o adnoddau naturiol sydd gan ein gwledydd a sicrhau ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd a ddaw â budd uniongyrchol i'n dinasyddion.

Rydym yn falch o gymeradwyo'r Fframwaith hwn ac edrychwn ymlaen at achub ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y bartneriaeth newydd hon – partneriaeth sydd â buddiannau pobl Cymru a'r Alban wrth ei gwraidd.

**Rhun ap Iorwerth**
Prif Weinidog Cymru

**John Swinney**
Prif Weinidog yr Alban

# Diben

Mae'r Cytundeb yn cyflwyno fframwaith strategol, hyblyg ar gyfer cydweithio a chynnal deialog ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin rhwng ein llywodraethau ac i ddysgu ar y cyd amdanynt, gan barchu hefyd ein mandadau democrataidd, a'n blaenoriaethau a'n hatebolrwydd neilltuedig i'n priod ddeddfwrfeydd.

Rydym yn rhannu ymrwymiad i wella canlyniadau i bobl Cymru a'r Alban, cryfhau democratiaeth, parchu hawl ein dinasyddion i benderfynu ar eu dyfodol cyfansoddiadol drwy ddulliau democrataidd, a mynd i'r afael â heriau cyffredin drwy weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth.

# Gweledigaeth a rennir

Drwy'r Cytundeb hwn, mae ein llywodraethau yn ceisio gwella canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i'n dinasyddion drwy gryfhau'r cydweithio rhwng ein Gweinidogion a'n swyddogion, a gwneud y canlynol:

**Rhannu dysgu ac arferion gorau.**

**Gwneud galwadau ar y cyd am weithredu ar heriau a chyfleoedd cyffredin.**

**Cefnogi cyfleoedd i ymgysylltu â democratiaeth a chyfranogiad y cyhoedd mewn materion polisi a chyfansoddiadol allweddol o ddiddordeb cyffredin.**

Er nad yw'r Cytundeb yn rhwymo mewn cyfraith ac nid yw'n effeithio ar bwerau neu gyfrifoldebau statudol yr un o'r ddwy lywodraeth, mae'n cynrychioli ymrwymiad sylfaenol i bartneriaeth strategol ac i fynd ar drywydd nodau cyffredin.

# Meysydd cydweithio a rennir

Bydd ein llywodraethau yn gweithio gyda'i gilydd ar draws ystod o flaenoriaethau polisi a rennir, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r meysydd a ganlyn:

**Mynd i'r afael â thlodi plant a gwella canlyniadau i blant a theuluoedd.**

**Mynd i'r afael â phwysau costau byw, gwella safonau byw a chefnogi aelwydydd a chymunedau i ffynnu.**

**Hybu twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol a ffyniant.**

**Ystyried trefniadau cyllidol sy'n cefnogi llywodraeth effeithiol, yn darparu tryloywder ac atebolrwydd, ac yn ei gwneud yn bosibl i'n llywodraethau gyflawni ar ran y bobl y maent yn eu gwasanaethu.**

**Mynd i'r afael â newid hinsawdd a chryfhau gwydnwch, gan gefnogi cynaliadwyedd hirdymor cymunedau ac economïau.**

**Sicrhau bod ein llywodraethau yn edrych tuag allan, ac yn gydweithredol ac yn uchelgeisiol ein hagwedd tuag at ein gweithgaredd rhyngwladol. Drwy hyn, byddwn yn dangos ein bod yn ddinasyddion byd-eang da, gan elwa i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd a mynd i'r afael â heriau demograffig a chymdeithasol cyffredin, a bydd hyn yn cynnwys elwa i'r eithaf ar y cyfleoedd a'r budd a ddaw yn sgil ein perthynas â'r Undeb Ewropeaidd a phartneriaid rhyngwladol eraill.**

**Cydnabod pwysigrwydd iaith, diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon i fynegi hunaniaeth genedlaethol, cefnogi cymunedau a gwella llesiant.**

Gellir adolygu a diweddaru'r meysydd cydweithio hyn drwy gytundeb ar y cyd i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg ac amgylchiadau sy'n newid.

Mae gan ein llywodraethau ddiddordeb cyffredin hefyd mewn trefniadau cyfansoddiadol a llywodraethiant effeithiol sy'n cefnogi atebolrwydd democrataidd, perthnasoedd rhynglywodraethol cryf ac sy'n diogelu ac yn ymestyn hunanlywodraeth yng Nghymru ac yn yr Alban.

## Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud y canlynol:

Rhannu tystiolaeth, arbenigedd a dysgu ar ddatblygiadau a diwygio cyfansoddiadol.

Ystyried materion sy'n effeithio ar weithrediad a datblygiad y setliadau datganoli yng Nghymru a'r Alban, gan gynnwys Deddf Marchnad Fewnol y DU a Chonfensiwn Sewel.

Cydweithio ar weithrediad prosesau cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer deddfwriaeth y DU.

Cefnogi cyfleoedd i gryfhau rôl y llywodraethau datganoledig yn nhrefniadau llywodraethiant y DU.

Hyrwyddo cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn democratiaeth, gwydnwch sefydliadol a llywodraethiant da, gan gynnwys drwy ddysgu ar y cyd ynghylch cyfranogiad y cyhoedd, dulliau ymgynghorol a mesurau i gryfhau ymddiriedaeth y cyhoedd mewn sefydliadau democrataidd.



# Ffyrdd o weithio

Rydym yn cytuno i wneud y canlynol:

**Gweithio gyda'n gilydd mewn ysbryd agored o bartneriaeth ac ymddiriedaeth.**

**Cydweithio'n fwy eang â llywodraethau eraill ar feysydd o ddiddordeb cyffredin, gan gynnwys ymgysylltu â Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon pan fo hynny'n briodol.**

**Rhannu tystiolaeth, ymchwil, arbenigedd ac arferion gorau, gan gynnwys cydweithio ar ymchwil a rennir, ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygu polisi pan fo hynny'n briodol.**

**Chwilio am gyfleoedd i ddatblygu dulliau cyffredin lle ceir diddordebau cydnaws.**

**Cyfnewid gwybodaeth am ddatblygiadau polisi sy'n dod i'r amlwg a chynigion deddfwriaethol.**

**Cefnogi cysylltiad a chydweithrediad rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ar lefel Gweinidogion a swyddogion.**

Mae ein llywodraethau yn cydnabod nad yw cydweithio yn golygu bod angen cysoni polisïau penodol. Rydym yn parhau i fod yn rhydd i ddilyn gwahanol ddulliau pan fydd hyn yn adlewyrchu ein priod fandadau democrataidd, amgylchiadau lleol, amcanion polisi neu fuddiannau'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

Nid yw'n fwriad y bydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn effeithio ar ofynion deddfwriaethol ac ymrwymiadau anneddfwriaethol ein priod lywodraethau mewn perthynas â datblygu a chyflawni polisi, ac mewn perthynas â'n hatebolrwydd i'n deddfwrfeydd. Mae ein llywodraethau yn cydnabod rôl graffu bwysig Senedd Cymru a Senedd yr Alban, a bydd unrhyw weithgaredd a gynhelir fel rhan o'r Cytundeb hwn yn ddarostyngedig i'r trefniadau atebolrwydd a chraffu presennol.

# Llywodraethiant

## Cyfarfod y Prif Weinidogion

Bydd Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog yr Alban yn cyfarfod yn flynyddol o leiaf i:

**Adolygu'r cynnydd o dan y Cytundeb hwn. Gallant adolygu ei gwmpas, ei flaenoriaethau neu ei drefniadau llywodraethiant fel sy'n ofynnol drwy gytundeb ar y cyd.**

**Ystyried cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cydweithio a chytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.**

## Ymgysylltu ar Lefel Gweinidogion a Swyddogion

Bydd Gweinidogion a swyddogion perthnasol yn cyfarfod yn rheolaidd, fel y bo'n briodol, er mwyn datblygu'r cydweithio ar draws y meysydd polisi y cytunwyd arnynt.